

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL O'R CYNGOR CYMUNED
LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 22AIN O
FAI 2023 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH,
LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.

PRESENNOL:

Y Cyngorwyr Ceri Davies (Cadeirydd), Philip Williams, Arwel Davies, Helen Jones, Rhian Jones, Rhian Evans, Ian Evans, Bari Evans, Manon Davies, Cyngorydd Sir Ddinbych Elfed Williams a'r Clerc.

1: CROESO I'R AELOD CYFETHOL NEWYDD Y CYNGOR.

Croesawyd Y Cyngorydd Helen Jones i'r cyfarfod cyntaf fel aelod y Cyngor.

2: YMDDIHEURIADAU:

Nid dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD.

Adroddiad y Cadeirydd, Ceri Davies, yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir nos Lun, Mai 22 2023

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor Cymuned wedi cyfarfod 10 o weithiau.

Ar ddechrau'r flwyddyn roedd gan y Cyngor pum aelod, sef Elfed Williams, Philip Williams, Rhian Evans, Bari Evans a Ceri Davies. Yn ystod y flwyddyn, cyfetholwyd pum aelod sef Arwel Davies, Ian Evans, Geraint Jones, Rhian Jones a Manon Davies.

Yn ystod y flwyddyn, bu i 2 aelod ymddeol; Elfed Williams, wrth iddo gymryd dyletswyddau Cyngorydd Sir; a hefyd Geraint Jones. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth i'r ardal.

Rwyf fel Cadeirydd hefyd yn sefyll lawr o'r Cyngor Cymuned yn y Cyfarfod Blynyddol, gan ddiolch i'r holl aelodau (presennol a blaenorol) am eu cydweithio a chefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Diolch yn fawr.

4. PENODI CADEIRYDD AM Y TYMOR 2023/2024.

Etholwyd Y Cyngorydd Philip Williams yn Gadeirydd y Cyngor â'n y tymor 2023/24.

5. PENODI IS-GADEIRYDD AM Y TYMOR 2023/2024.

Etholwyd Y Cyngorydd Arwel Davies yn Is-gadeirydd y Cyngor am y Flwyddyn 2023/24.

6. PENODI CYNRYCHIOLAETH AR FUDIADAU ERAILL:-

A. UN LLAIS CYMRU- Y Cyngorydd Philip Williams.

B. LLYWODRAETHWR YSGOL PANT PASTYNOG Y Cyngorydd Ian Evans.

C. LLYWODRAETHWR YSGOL BRO CINMEIRCH – Y Cyngorydd Rhian Evans.

D. BWRDD YR ELUSENNAU'R Cyngorwyr Philip Williams, Arwel Davies a Rhian Jones.

E. YSTAFELL GYMUNEDOL – Y Cyngorydd Bari Evans.